# Tîm Gwahaniaethau Dysgu Penodol (SpLD)

## Gwasanaethau Anabledd, Prifysgol Bangor

**Canllawiau ar gyfer marcio gwaith a rhoi sylwadau i fyfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol (SpLDs)**




(Addaswyd o boster a gynlluniwyd gan Laura Haggett, myfyriwr ôl-radd Seicoleg, 2013)

"…mae'n gamddealltwriaeth cyffredin mai swydd y tiwtor dyslecsia yw cywiro gwallau yng ngwaith eu myfyrwyr. Cyflogir y tiwtor dyslecsia i ddysgu'r myfyriwr dyslecsig ddatblygu strategaethau y gallent eu defnyddio eu hunain a dod yn annibynnol; nid prawf-ddarllen gwaith myfyriwr yw'r swydd. Mewn gwirionedd, hyd yn oed drwy ddefnyddio technoleg cynorthwyo a chefnogaeth gan diwtor dyslecsia, ni fydd llawer o fyfyrwyr gyda dyslecsia'n gallu cywiro'u gwallau, er gwaethaf eu hymdrechion gorau. Nid oes gan lawer o fyfyrwyr gyda gwahaniaethau dysgu penodol fynediad at diwtor dyslecsia. Mae tynnu sylw mewn gwaith cwrs yn gwneud iawn am y gwahaniaethau hyn" (Conway a Turner 2011:3).

(Medi 2020 - JJ)

# Cynnwys


1. Rhagarweiniad 3

2. Beth yw Gwahaniaethau Dysgu Penodol (SpLDs)? 4

3. Addasiadau Rhesymol 5

4. Slipiau Melyn 6

5. Safonau Cymhwyster 7

6. Marcio Gwaith Cwrs 8

7. Marcio Arholiadau 11

8. Marcio Cyflwyniadau Llafar 12

9. Rhoi Sylwadau 13

10. Cwestiynau a Ofynnir yn Aml 14

Atodiad 1: Peryglon defnyddio gwiriwr sillafu 16

Cyfeiriadau 18

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r llyfryn byr hwn yn rhoi canllawiau a gwybodaeth ymarferol i gefnogi darlithwyr wrth farcio gwaith cwrs ac arholiadau, fel addasiad rhesymol i fyfyrwyr gyda dyslecsia a / neu Gwahaniaethau Dysgu Penodol (SpLDs) eraill, gan gadw safonau academaidd yr un pryd. Rhoddir arweiniad hefyd ar farcio gwaith cyflwyniadau llafar.

Nid yw'r llyfryn wedi'i fwriadu fel set o reolau caeth. Mae Prifysgol Bangor yn cynnig portffolio amrywiol o ddarpariaeth cyrsiau a staff academaidd a chyrff proffesiynol / statudol sydd yn y lle gorau i benderfynu ar yr hyn sy'n cael ei fesur yn deg wrth farcio gwaith.

Ni fwriedir chwaith i'r canllawiau hyn wrthdaro â meini prawf asesu. **Er enghraifft, os bydd y meini prawf asesu penodedig ar gyfer aseiniad neu arholiad yn cynnwys safon y Saesneg ysgrifenedig a gyflawnir gan y myfyriwr, yna er mwyn sicrhau y cyflawnir deilliannau dysgu bwriadedig y rhaglen, dylid defnyddio'r meini prawf hynny lle bo angen, ac egluro hynny yn y sylwadau i helpu'r myfyriwr ddatblygu'r sgiliau perthnasol.** Fodd bynnag, fel addasiad rhesymol, y mae'n dal angen ystyried a ddylid defnyddio dull asesu arall i bennu gwybodaeth y myfyriwr am ddeunydd y pwnc (Prifysgol Bournemouth, 2003).

Mae'r llyfryn yn dechrau gydag eglurhad byr o Wahaniaethau Dysgu Penodol (SpLDs) cyn symud ymlaen i drafod addasiadau rhesymol, y ffurflenni melyn a safonau cymhwyster er mwyn gosod y cyngor sy'n dilyn yn ei gyd-destun, sef cyngor ar farcio: gwaith cwrs, arholiadau a chyflwyniadau llafar. Yn olaf, mae'r adrannau olaf yn nodi rhai canllawiau wrth roi sylwadau a rhai cwestiynau a ofynnir yn rheolaidd a godwyd yn ystod sesiwn gynefino'r Dystysgrif AU Ôl-radd(2014) a gweithdy'r Ysgol Gwyddorau Iechyd a Chwaraeon (2014) ym Mhrifysgol Bangor.

## 2. Beth yw Gwahaniaethau Dysgu Penodol (SpLDs)?

Mae'r Gymdeithas Ddyslecsia Brydeinig (BDA) 2012) yn nodi bod Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn effeithio ar y ffordd y caiff gwybodaeth ei dysgu a'i phrosesu. Mae'r gwahaniaethau hyn yn niwrolegol eu tarddiad yn hytrach na seicolegol, ac yn rhedeg mewn teuluoedd fel rheol. Maent hefyd yn digwydd yn annibynnol o ddeallusrwydd. Yn arbennig, gall y cyfryw gwahaniaethau effeithio'n sylweddol ar addysg a dysgu ac ar ddatblygu sgiliau llythrennedd.

"SpLD is an umbrella term used to cover a range of frequently co-occurring difficulties, more commonly:

- Dyslexia
- Dyspraxia
- Dyscalculia
- A.D.D / A.D.H.D
- Auditory Processing Disorder

SpLDs can also co-occur with difficulties on the autistic spectrum such as Asperger Syndrome" (tud.1).

Oherwydd bod llawer iawn o wahanol Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn digwydd yr un pryd, dylid nodi bod proffil pob unigolyn yn unigryw, a gall ddod i'r amlwg mewn amrywiaeth o brofiadau. Gall effeithiau amrywio o ysgafn i ddifrifol, a gall fod yn anodd ei ganfod, pennu'r effaith ac addasu ar ei gyfer.

Mae'r BDA yn diffinio dyslecsia fel gwahaniaeth dysgu penodol sy'n effeithio'n bennaf ar ddatblygu sgiliau'n gysylltiedig â llythrennedd ac iaith. Mae'n debygol o fod yn bresennol ar enedigaeth a chydag effeithiau gydol oes. Nodweddion dyslecsia yw gwahaniaethau gyda phrosesu ffonolegol, enwi'n gyflym, cof gweithio, cyflymder prosesu a datblygiad awtomatig sgiliau nad ydynt o bosib yn cyfateb i sgiliau gwybyddol eraill unigolyn. Mae'n tueddu i wrthsefyll dulliau addysgu confensiynol, ond gellir lleihau ei effeithiau drwy ymyrraeth benodol briodol, yn cynnwys defnyddio gwybodaeth a chwnsela cefnogol.'

Mae rhai nodweddion cyffredin Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn cynnwys trafferthion gyda'r canlynol:

Y cof; trefnu; prosesu gweledol, prosesu clywedol, darllen; ysgrifennu; rheoli amser; tynnu sylw'r synhwyrau: methu â chau allan ysgogiadau gweledol neu glywedol amherthnasol; straen gweledol (BDA, 2012).

## 3. Addasiadau Rhesymol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod angen i sefydliadau wneud addasiadau rhesymol i leihau neu ddileu effeithiau 'anfantais sylweddol'. Yn ymarferol, golyga hyn gwneud pethau'n wahanol pe bai'r ffordd arferol yn rhoi rhywun anabl dan anfantais sylweddol. Neu fe allai olygu darparu gwasanaethau neu offer ychwanegol. **Mae canllawiau marcio'n un enghraifft o addasiad rhesymol.**

Mae'r hyn sy'n rhesymol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos, gan gynnwys pa mor bwysig yw'r addasiad, pa mor ymarferol ydyw ac adnoddau cyllidol neu adnoddau eraill y sefydliad. Sylwch: adnoddau cyllidol y sefydliad yn gyffredinol ac nid cyllideb adran neu faes gwasanaeth unigol sy'n berthnasol yn y cyd-destun hwn (Prifysgol Lerpwl, 2014).

Ym Mhrifysgol Bangor, bydd myfyrwyr sydd â thystiolaeth o Wahaniaeth Dysgu Penodol (SpLD) ac sydd wedi cofrestru gyda'r Gwasanaethau Anabledd, yn cael creu Cynllun Cefnogi Dysgu Personol ar eu cyfer. Addasiad rhesymol cytunedig gan Brifysgol Bangor ac a adlewyrchir yn y Cynllun Cefnogi Dysgu Personol ar gyfer myfyrwyr SpLD yw "ystyried anawsterau unigol wrth asesu gwaith (fel y mae deilliannau dysgu yn caniatáu)" (y slip melyn - gwelwch Atodiad 2).

## 4. Slipiau Melyn

Rhoddir ffurflenni melyn i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru â'r Tîm SpLD i'w rhoi ynghlwm â gwaith cwrs a sgriptiau arholiadau. Maent yn cynnwys nodyn hefyd i'r perwyl, lle bo deilliannau dysgu yn caniatáu, fel addasiad rhesymol, na ddylid tynnu marciau oddi wrth aseiniadau o angenrheidrwydd am elfennau o waith ysgrifenedig nad ydynt yn hanfodol i arddangos cyrhaeddiad.

Mae'r gwahaniaethau penodol y gall myfyriwr unigol ddod ar eu traws gyda gwahanol elfennau o iaith ysgrifenedig yn anodd eu mesur yn union, oherwydd bydd perfformiad myfyriwr yn amrywio gan ddibynnu ar wahanol gyd-destunau, gwahanol adegau, a'r gwahanol bwysau sydd arno. **Felly, mae'r amrywiaeth o wahaniaethau penodol y gall myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol eu profi i wahanol raddau, wedi eu rhestru ar frig y dudalen felen, yn hytrach na'u nodi i'r unigolyn penodol.**

Gall y myfyrwyr gyfathrebu'n dda ar lafar a gwneud yn dda mewn asesiad ymarferol, ond ei chael yn anodd mynegi'r theori'n ysgrifenedig. Mae'n ddiogel cyffredinoli, o ganlyniad i ddyslecsia, dyspracsia neu ADHD, nad yw eu sgiliau llythrennedd yn rhugl nac yn awtomatig; gall darllen ac ysgrifennu gymryd mwy o amser ac ymdrech. Gan fod sgiliau myfyrwyr yn fregus, efallai na fydd gwaith ysgrifenedig – yn arbennig gwaith a gynhyrchir dan bwysau cyfyngiadau amser - yn adlewyrchu gallu deallusol myfyrwyr na'u dysgu.

Fodd bynnag, y brif neges yw bod y **slipiau melyn yno fel canllawiau**; nid yw'r rhain wedi'u bwriadu i fod yn arwydd y dylid ychwanegu marciau i wneud iawn. **Yn hytrach, ni ddylid cosbi myfyrwyr yn ddiangen am unrhyw elfennau o'u gwaith sy'n adlewyrchu eu gwahaniaethau dysgu penodol, cyn belled ag y mae'r deilliannau dysgu'n caniatáu**.

Dylid marcio pob darn gwaith gan fyfyrwyr gyda Gwahaniaeth Dysgu Penodol yn unol â deilliannau dysgu. **Dylid gwneud y cyflawniadau a'r deilliannau dysgu disgwyliedig yn glir i bob myfyriwr, os oes ganddynt Gwahaniaeth Dysgu Penodol ai peidio.**

**Mae'r prif fudd o nodi gwaith gan fyfyriwr gyda SpLD yn ymwneud â'r math o sylwadau sydd eu hangen** (Prifysgol Northampton, 2008). Gwelwch Adran 9 am ragor o ganllawiau ar sylwadau yn y llyfryn hwn.

## 5. Safonau Cymhwyster

Y ffactor allweddol i bennu a all myfyriwr gwblhau ei astudiaethau'n llwyddiannus, yw ystyried a yw'r myfyriwr wedi dangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol o'r pwnc, ac y gallent gyflawni'r 'safonau cymhwyster' sy'n ofynnol.

Mae'n bwysig felly bod yr hyn a asesir yn eglur – y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddisgwylir. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r canlynol ynghylch safonau cymhwyster:

- Maent yn berthnasol i bob elfen o gyrsiau - derbyniadau, asesu a dyfarnu cymwysterau.
- Rhaid iddynt fod yn berthnasol - yn fodd cymesur i gyrraedd nod dilys.
- Ni ddylent wahaniaethu.
  - Rhaid iddynt fod yn ddilys a theg i fyfyrwyr anabl.
  - Os oes effaith gwahaniaethol, yna rhaid cyfiawnhau'r safon cymhwyster yn wrthrychol.
- Rhaid eu gosod yn briodol mewn cysylltiad â math neu lefel y cymhwyster a ddyfernir.
- Nid oes dyletswydd gwneud addasiadau rhesymol i safon cymhwyster, OND rhaid gwneud addasiadau rhesymol i alluogi i fyfyriwr anabl gyflawni'r safon cymhwyster.

- Mae'n annhebygol y gellid cyfiawnhau perfformio mewn arholiad â chyfyngiad amser fel safon cymhwyster, felly ar gyfer rhai Gwahaniaethau Dysgu Penodol, gallai addasiad rhesymol olygu cynllunio dull arall o asesu ar gyfer unigolyn.
- Mewn rhai achosion, gall safonau cymhwyster fod yn gysylltiedig â'r broses asesu ei hun, er enghraifft, cwblhau prawf ymarferol i ddangos sgil neu allu.
- Y peth gorau yw penderfynu pa ofynion sy'n safonau cymhwyster gwirioneddol a pha rhai nad ydynt.
- Wrth lunio dulliau asesu a meini prawf marcio, dylech ystyried natur ddisgwylgar 'dyletswydd addasiadau rhesymol' i wneud asesu mor hygyrch ag sy'n bosib, a rhoi arweiniad i staff at ddibenion marcio – **mae angen meini prawf marcio clir a thryloyw. Po fwyaf o eglurder a geir ar yr hyn sy'n cael ei brofi, bydd yn haws marcio.**

- Dylai myfyrwyr wybod am y meini prawf marcio a'u deall.
- Byddai hyn yn eu galluogi i nodi meysydd y mae arnynt angen eu datblygu a cheisio cymorth ar eu cyfer.
- Byddwch yn eglur ynghylch y safonau cymhwyster sydd eu hangen ar gyfer rhaglen astudio fel y gall darpar-fyfyrwyr benderfynu a yw cwrs penodol yn iawn iddyn nhw (Prifysgol Teesside, 2008).

## 6. Marcio Gwaith Cwrs

- **Marc am y cynnwys:** ystyriwch yn ofalus yr hyn mae'r ymgeisydd yn cael ei farcio amdano: ffeithiau clir; gwybodaeth; y gallu i resymu; meddwl gwreiddiol. I ryw raddau, dylai marcwyr "edrych y tu hwnt i'r testun" (h.y. gweithio allan pa mor bwysig yw mynegiant sylfaenol) a sicrhau nad ydynt yn marcio ymgeisydd i lawr yn ddiarwybod am ddiffyg sgiliau y byddent yn cytuno iddynt fod yn amherthnasol erbyn meddwl.
- **Pan ystyrir sillafu a gramadeg yn rhan bwysig o'r briff,** mae'n bwysig rhoi gwybod i'r myfyrwyr ymlaen llaw, i alluogi iddynt ystyried pa strategaethau gwirio a phrawf-ddarllen y bydd rhaid iddynt eu defnyddio.

| **Sialensiau posib** | **Addasiadau rhesymol** |
|---|---|
| Sillafu a gramadeg | • Oni bai bod sillafu a gramadeg yn rhan hanfodol o ddeilliannau'r cwrs, dylech anwybyddu'r math o wallau sillafu / gramadeg, fel cyfunffurfiau / cyfunseiniau na ellir eu pigo o wirwyr sillafu / gwirwyr gramadeg.<br>• Os nad yw sillafu gwael yn effeithio ar y wybodaeth a ddangosir, ni ddylid cosbi ymgeisydd - ystyriwch beth fyddai golygydd copi da (neu wirydd sillafu) wedi'i wneud o'r testun. Fodd bynnag, os yw sillafu'n hanfodol i'r pwnc, fel mewn ffarmacoleg neu gemeg, neu, er enghraifft, cyflwyno enwau a dyddiadau mewn hanes yn gywir, yna dylid cosbi gwallau. |
| Strwythur brawddeg | • Gall brawddegau fod yn anramadegol; gallent ymddangos yn gryno, neu'n hir iawn. Gall atalnodi fod yn ddi-drefn. Eto, dylid ystyried y cydbwysedd rhwng y wybodaeth a gynigir a'r mynegiant trwsgl. |
| Fframwaith traethawd | • Gall traethodau fod heb strwythur iddynt.<br>• Mae'n debygol bod dangos llinyn meddwl strwythuredig yn rhan o'r meini prawf marcio, ac os felly gellid cyfiawnhau i farcwyr gosbi'r myfyriwr am waith di-drefn.<br>• Os mai pwrpas y traethawd yw cyflwyno casgliad o ffeithiau'n unig, efallai na fyddai hyn mor bwysig. |

Disgwylir y dylai gwaith cwrs, a gynhyrchir hwb bwysau dwys cyfyngiadau amser, fod wedi'i ysgrifennu a'i gyflwyno'n well na gwaith a wneir dan amodau arholiad. Gall myfyrwyr ddefnyddio meddalwedd cynorthwyo i olygu eu gwaith (cyfleuster darllen yn ôl, gramadeg a gwirwyr sillafu [1]). Mae Tîm Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn cynnig cefnogaeth â datblygu strategaethau prawf-ddarllen, ond nid yw pob myfyriwr yn

1 Gwelwch Atodiad 1 am beryglon defnyddio gwiriwr sillafu

defnyddio hyn. Os yw gwaith yn wan iawn, dylid annog myfyrwyr i geisio cymorth. Fodd bynnag, dylid rhoi ychydig o ystyriaeth o hyd i amser gweithio arafach a thrafferthion gyda strwythur, sillafu, gramadeg ac atalnodi – lle nad yw'r rhain yn ganlyniad dysgu penodol.

**ENGHRAIFFT O ASTUDIAETH ACHOS:**

**Isod, ceir enghraifft o destun 'delfrydol' a dwy enghraifft o waith i'w cymharu:**

Mae'r enghraifft gyntaf yn sgript dderbyniol gan fyfyriwr dyslecsig. Mae'r ail enghraifft yn dangos gwendidau difrifol mewn mynegiant, eglurder a gwybodaeth o'r pwnc a allai arwain at golli marciau, neu fethu.

Traditional definitions of NGOs (Non Government Organizations) describe them as people's grassroots organizations, which are non-profitmaking, non-party-political and voluntary. They have ethical and practical concerns such as poverty, health, education, housing, human rights and environment. They are targeted at, or partners with, youth groups, the elderly, indigenous people, consumers or religious groups. During a preparatory session, the United Nations Conference on Environment and Development (UNCED) broadened this traditional definition to include a constellation of organizations.

ENGHRAIFFT A

"**Traditonal** definitions **off** NGOS (Non Government Organisations) **are calling** them people's grassroots organizations which **is** non-**profet** making non party political and **volunteers.** They have **ethcal concern** such as poverty, health, education **home** human rights and the **envirment.** They are targeted at, or **paertner** with, **young** groups, the elderly, indigenous, **consoomers** or religious groups. During preparatory session the United **n**ations **c**onference on Environment and Development (UNCED) **beoadened** this traditional definition to **included** links of organisations".

Yn yr enghraifft hon mae'r sillafu, gramadeg ac atalnodi yn wael (wedi eu hamlygu mewn print trwm) ond mae'r testun yn gywir yn ffeithiol. Mae'r myfyriwr yn dangos gwybodaeth gadarn o am faes y pwnc.

ENGHRAIFFT B

"NGOs **in defining** are *Government bodies* and **they four** the people. They are run by **volunteer** *and make large amounts of money.* Practical **comncerns**, *always and above such factual poorness.* Health is also involved. *Targeted at ethcal and the concerns of practicable such as poverty, human* **rites,** *food nutrition and the environment.* There was a conference recently and it made more organizations involved."

Yn yr enghraifft hon mae'r sillafu, gramadeg ac atalnodi yn wael (wedi eu hamlygu mewn print trwm) ond mae yna hefyd lawer o ffeithiau wedi eu hepgor, camddeongliadau a thestun annealladwy sy'n dangos diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc (wedi'i italeiddio).

Cafwyd yr enghraifft gan: London South Bank University (2014).

## 7. Marcio Arholiadau

**Gall trafferthion â'r gwair ysgrifenedig ymddangos yn llawer iawn cliriach mewn arholiadau nag mewn gwaith cwrs** oherwydd efallai na fydd myfyrwyr yn gallu gweld unrhyw wallau gramadeg neu sillafu.
Mae caniatáu amser ychwanegol o gymorth i fyfyrwyr, er na fydd hyn o angenrheidrwydd yn galluogi i fyfyrwyr oresgyn anawsterau darllen ac ysgrifennu. I'r rhan fwyaf o fyfyrwyr, er gwaethaf rhoi'r caniatâd hwn, mae straen pwysau arholiad yn gwaethygu anawsterau.

| **Sialensiau posib** | **Addasiadau rhesymol** |
|---|---|
| Arafwch wrth ddarllen y cyfarwyddiadau a'r cwestiynau. Gall fod yn anodd darllen papurau arholiad gyda llawer o destun ac mae papurau cwestiynau amlddewis yn arbennig o anodd i rai myfyrwyr. | • 25% o amser ychwanegol (mae hwn yn addasiad safonol i fyfyrwyr â SpLD), ond gall fod yn fwy os yw'r addasiad wedi'i gefnogi â thystiolaeth (er enghraifft, adroddiad diagnostig). |
| Llawysgrifen drwsgl, araf, er enghraifft, drysu p a b, b a d, a rhai cyfuniadau o lythrennau wedi'u hysgrifennu yn y drefn anghywir. | • Derbyniwch y gall y sgript fod yn anodd ei ddarllen, ac felly osgoi gwylltio. |
| Anawsterau sillafu a gramadeg sy'n arafu ysgrifennu. | • Cymerwch amser i ddatrys yr ystyr. Gall hyn gynnwys ychydig o ail-ddarllen lle mae'r sillafu, atalnodi a gramadeg yn lletchwith.<br>• Peidiwch â chosbi am wallau sillafu neu ramadeg trwsgl.<br>• Eglurwch i ba raddau y mae meini prawf marcio'n caniatáu i iaith letchwith gael ei hanwybyddu. |
| Strwythur – gall atebion fod wedi'u strwythuro'n wael; i rai myfyrwyr, mae cynllunio i ddilyniant yn anodd. Efallai ei bod yn ymddangos nad oes llif clir i ateb traethawd, gyda'r 'geiriau allweddol' yn brin. | • Cymerwch amser i ddod o hyd i syniad da, neu ddarn o wybodaeth, a allai ymddangos y tu allan i'r drefn. |
| **Sylwadau:**<br>• Mae sylwadau'n bwysig fel y gall myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol sylweddoli i ba raddau y mae eu marciau isel yn ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth fanwl nau anallu i adfyfyrio ar eu gwybodaeth yn ddigonol yn ysgrifenedig.<br>• Pan fo myfyriwr yn tangyflawni llawer, yna gallai asesiad llafar fod yn gyfrwng gwirio priodol. Gallai hyn helpu i ganfod ai gafael o'r pwnc ei hun yw'r broblem, neu ai effeithiau gwahaniaeth dysgu penodol ydyw. | |

Addaswyd o Carter a Kirkham (1996)

## 8. Marcio Cyflwyniadau Llafar

Efallai y bydd yn well gan rai myfyrwyr dyslecsig gyflwyniadau llafar na gwaith ysgrifenedig, fodd bynnag, mae'r dull hwn o asesu'r un mor heriol. Y mae hefyd yn ganfyddiad cyffredin bod myfyrwyr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn cael trafferth ag iaith ysgrifenedig, ond yn rhugl ar lafar. Fodd bynnag, mae rhai myfyrwyr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol hefyd yn cael trafferthion ag iaith lafar. Gall y rhain gynnwys dod o hyd i eiriau, petruso, brawddegau wedi'u camynganu a brawddegau anghyflawn. Gallent hefyd gael trafferthion â threfnu eu syniadau ar lafar, yn union yr un ffordd ag y cânt gyda'u gwaith ysgrifenedig (Prifysgol Bournemouth, 2003).

| **Sialensiau posib** | **Addasiadau rhesymol** |
|---|---|
| Rhuglder | Anwybyddu'r elfen o'r cyflwyno sy'n effeithio ar ruglder; e.e. petruster a chamynganu. |
| Straen a phryder | Anwybyddu straen a phryder amlwg ac ystyried yr amgylchedd cyflwyno i geisio lleihau straen (Prifysgol Bournemouth, 2003). |
| Cynulleidfa | Creu amgylchedd tawel; e.e. llai o bobl yn gwylio. |
| Amser | Caniatáu mwy o amser i osod pethau cyn y cyflwyniad a hel meddyliau at ei gilydd, os gofynnir am hynny (Prifysgol Bournemouth, 2003). |
| Sgiliau cyflwyno | Anwybyddu anawsterau tebyg sy'n amlwg mewn gwaith ysgrifenedig, fel trefn a dilyniant. |
| Darllen allan yn uchel | Ystyried anawsterau wrth ddarllen yn uchel o nodiadau. |
| Cwestiynau | Dylid cyflwyno cwestiynau'n glir a'u hailadrodd lle bo angen, os ydynt yn rhan o'r broses. |
| Amser meddwl | Caniatáu amser meddwl ar gyfer ymatebion. |

Addaswyd o Brifysgol Teesside, (2008)

## 9. Rhoi Sylwadau

| Beth i'w wneud | Rhesymeg |
|---|---|
| Nodi beth mae'r myfyriwr wedi ei wneud yn dda, ac egluro pam bod elfen benodol o'r gwaith yn dda yn hytrach na / yn ogystal â bod yn feirniadol. | Mae modelau o arfer da a defnydd cywir yn haws eu cofio a'u copïo; mae myfyrwyr gyda SpLD yn ei chael yn anodd 'darllen rhwng y llinellau'. |
| Egluro'r hyn sydd ei angen a'r hyn aeth o'i le; defnyddio iaith glir, syml gan osgoi estyniadau, coegni a brawddegau cymhleth; osgoi defnyddio termau gramadegol. | Mae myfyriwr gyda SpLD yn annhebygol o wybod sut i gywiro gwall heb beth cyfarwyddyd neu eglurhad; maent yn aml yn anghyfarwydd â thermau/rheolau gramadegol. |
| Rhowch wybod i'r myfyriwr os ydych chi'n marcio am syniadau, dealltwriaeth a gwybodaeth ac yn anwybyddu sillafu, atalnodi a gramadeg. | Gall absenoldeb llawer o gywiriadau (maent wedi arfer â llawer!) greu argraffu ffug o welliant, a gall fod yn dorcalonnus pan fydd ail-werthuso'n digwydd. |
| Os penderfynwch farcio am sillafu, gramadeg ac atalnodi, dylech osgoi marcio pob gwall - dewiswch a dangoswch tua phedwar math o wall. | Gall nifer o gywiriadau fod yn dorcalonnus; ni fydd cywiro sillafu a gramadeg yn unig yn arwain at wella – bydd helpu'r myfyriwr nodi mathau o wallau ynghyd â modelau o ddefnydd cywir yn helpu. |
| Defnyddiwch feiro un lliw i roi sylwadau am syniadau, dealltwriaeth a gwybodaeth, a beiro lliw gwahanol ar gyfer sillafu, atalnodi a gramadeg. **Dylech osgoi defnyddio beiros coch.**<br>Os ydych yn gweithio ar-lein, gellwch ddefnyddio'r teclyn amlygu testun. | Mae unrhyw beth sy'n helpu i wahaniaethu swyddogaethau geiriau'n ddefnyddiol i'r myfyriwr â SpLD. Mae cysylltiadau negyddol i goch yn aml o ddyddiau ysgol, a gall fod yn dorcalonnus. |
| Defnyddiwch binnau ffelt amlygu / neu amlygwr ar gyfrifiadur i ddangos pa feysydd o destun sy'n 'perthyn â'i gilydd' os ydych am ddangos lle mae angen gwneud newidiadau mewn strwythur neu drefniant. | Bydd unrhyw beth sy'n cynorthwyo i wahaniaethu testun yn ddefnyddiol; gellir adnabod lliw yn syth a bydd yn rhoi ymdeimlad ychwanegol o reolaeth i'r myfyriwr dros y testun. |

Cynnwys yn deillio o Brifysgol Northampton (2008)

## 10. Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

- ***Os cymerir Gwahaniaethau Dysgu Pendodol i ystyriaeth wrth farcio gwaith cwrs neu sgriptiau arholiad, a yw safonau academaidd yn cael eu peryglu?***

Mae'r angen i gynnal safonau academaidd yn rhagosodiad sylfaenol yn y gyfraith (Deddf Cydraddoldeb 2010). Yr hyn sy'n hollbwysig yw'r ffordd caiff deilliannau dysgu eu diffinio a'u hasesu. Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn dadlau bod rhaid rhoi cyfle i fyfyrwyr anabl ddangos y gallu i gyflawni deilliannau dysgu a safonau cymhwyster. Mae'n nodi hefyd, tra nad oes dyletswydd gwneud addasiadau rhesymol i safon cymhwyster ei hun, mae'r ddyletswydd yn berthnasol i asesu'r safon honno. Felly, er enghraifft, gellir defnyddio addasiadau rhesymol fel amser ychwanegol, defnyddio prosesydd geiriau neu ysgrifennwr gyda phroses, a gellir llunio asesiadau eraill i alluogi dangos y cyflawnwyd deilliannau dysgu (Conway a Turner, 2011) (gwelwch hefyd 'Rheolau a Threfniadau a Chod Ymarfer ar gyfer Asesu Myfyrwyr ar Raglenni Israddedig ac Ôl-raddedig Hyfforddedig' Prifysgol Bangor am fwy o wybodaeth).

- ***Sut ydw i'n ystyried Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn nhermau ei effaith ar waith myfyrwyr addysg uwch?***

Ni ddylid trin myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn llai ffafriol na myfyrwyr eraill oherwydd eu hanabledd. Os yw aseswyr yn ymwybodol o Gwahaniaethau Dysgu Penodol mewn AU, yna byddent yn gallu rhoi ystyriaeth ddyledus i ffactorau'n gysylltiedig â Gwahaniaethau Dysgu Penodol wrth farcio gwaith cwrs neu sgriptiau arholiad. Er enghraifft, mae myfyrwyr gyda dyslecsia'n aml yn cael anawsterau cynhyrchu gwaith ysgrifenedig mor gyflym â myfyrwyr eraill; maent yn fwy tebygol o wneud gwallau sillafu, **hyd yn oed mewn gwaith wedi ei deipio ar gyfrifiadur**. Gall eu hatalnodi a'u gramadeg fod yn wan, ac yn aml, maent yn gadael pethau allan, yn eu hailadrodd neu'n cyflwyno geiriau swyddogaethol bach neu ddiweddebau geiriau. Efallai bod diffyg caboli i waith ysgrifenedig, a gallai aseswyr feddwl bod y cyfryw waith yn wael neu'n ddiofal, a thynnu marciau am gyflwyniad gwael. Fodd bynnag, dylid deall y cyfryw wallau a'u hanwybyddu oni bai bod cywirdeb yn hollbwysig yn y pwnc a asesir (Conway a Turner, 2011).

- ***Beth am farcio mewn rhai meysydd pwnc penodol fel iaith?***

Mewn rhai meysydd pwnc penodol fel ieithoedd, efallai bod cymhwyster gyda gramadeg, sillafu a mynegiant ysgrifenedig yn cael ei asesu'n eglur. Mewn meysydd eraill fel y gyfraith, addysg a meddygaeth, efallai bod ystyriaethau proffesiynol lle mae gan gyrff achredu o'r tu allan i'r sefydliad ddisgwyliadau ynghylch safonau a fformatau mynegiant ysgrifenedig. Ni ddylid cyfaddawdu ar safonau cymhwyster, ond dylid gwahaniaethu ynghylch y ffordd y cânt eu hasesu (Conway a Turner, 2011).

- ***Ai penderfyniad darlithydd unigol ydyw ynghylch safon cymhwyster?***

Na, rhaid i bob rhaglen fod â nodau ac amcanion clir, a chadw ystyriaethau proffesiynol mewn cof. Dylid cynllunio rhaglenni gradd a modiwlau unigol gan gymryd i ystyriaeth

anawsterau dysgu myfyrwyr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol. Er enghraifft, dylid rhoi pwyslais ar bwysigrwydd sgiliau iaith ysgrifenedig mewn deilliannau dysgu, ac ystyried i ba raddau y gellir cymryd dyslecsia, ac unrhyw anabledd arall, i ystyriaeth, a'r math o lety y gellir ei ganiatáu. **Mae angen gwneud meini prawf marcio yn eglur i bob ymgeisydd ar gwrs neu raglen** (Conway a Turner, 2011).

- ***A ddylid gwahaniaethu rhwng gwaith cwrs ac arholiadau?***

Mae yna farn amrywiol ynghylch a ddylid trin gwaith cwrs ac arholiadau a wneir gan fyfyrwyr dyslecsig yn yr un ffordd. Mae un ysgol yn credu bod amser ychwanegol ac addasiadau eraill fel darllenwr neu ysgrifennwr y gellir eu caniatáu i fyfyrwyr dyslecsig yn annigonol. Fodd bynnag, mae amser ychwanegol yn caniatáu ar gyfer prosesu arafach, neu gofio pethau, neu hyd yn oed llawysgrifen arafach. Yr hyn nad yw'n ei wneud yw caniatáu ar gyfer sillafu, gramadeg ac atalnodi, ac anawsterau gyda mynegiant ysgrifenedig sy'n debygol o fodoli o hyd. Mae Adroddiad Singleton (1999 ct yn Conway a Turner, 2011) yn dadlau y dylid rhoi gwybod i arholwyr sy'n marcio gwaith myfyrwyr dyslecsig am eu hanawsterau a'u hystyried wrth farcio.

Gyda gwaith cwrs, nid yw rhai sefydliadau addysg uwch yn tynnu sylw at waith myfyrwyr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol, oherwydd cymerir y gall myfyrwyr, heb gyfyngiadau amser arholiad, dreulio mwy o amser a defnyddio technoleg cynorthwyo i 'brawf-ddarllen' eu gwaith eu hunain, neu gael cefnogaeth gan diwtoriaid Gwahaniaethau Dysgu Penodol. Felly, dylai pob myfyriwr fod â mynediad at y cyfleoedd hyn drwy'r Lwfans Myfyrwyr Anabl neu drwy rwymedigaeth y sefydliad i ddarparu dysgu hygyrch a chynhwysol.

- ***Beth am fyfyrwyr anawsterau dysgu penodol yn cael 'cefnogaeth ddwbl'?***

Mae rhai staff wedi dweud eu bod yn bryderus y gallai myfyrwyr gael 'cefnogaeth ddwbl' os oes meddalwedd arbenigol a hyfforddiant Gwahaniaethau Dysgu Penodol ar gael iddynt i'w cynorthwyo i gyflwyno gwaith academaidd ar safon dda, a'u bod hefyd yn cael eu marcio gan gymryd eu hanawsterau i ystyriaeth.

Fodd bynnag, fe all myfyriwr fod yn derbyn hyfforddiant a / neu'n defnyddio meddalwedd arbenigol i'w cynorthwyo i wella eu sgiliau ar gyfer, er enghraifft, strwythuro traethawd. Ond nid yw hyn yn golygu y gellir 'datrys' eu gwahaniaethau, dim ond eu bod yn fwy tebygol o gyflwyno darn o waith sydd wedi'i strwythuro'n fwy rhesymegol. Yn ogystal, yn anad dim, gall faint o amser y mae'n ei gymryd i unigolyn ddechrau defnyddio'r strategaethau hyn amrywio (Prifysgol Teesside, 2008).

## Atodiad 1: Peryglon defnyddio gwiriwr sillafu

**Candidate for a**
**Pullet Surprise**

I have a spelling checker,
It came with my PC.
It plane lee marks four my revue
Miss steaks aye can knot sea.

Eye ran this poem threw it,
Your sure reel glad two no.
Its vary polished in it's weigh.
My checker tolled me sew.

A checker is a bless sing,
It freeze yew lodes of thyme.
It helps me right awl stiles two reed,
And aides me when eye rime.

Each frays come posed up on my screen
Eye trussed too bee a joule.
The checker pours or every word
Too cheque sum spelling rule.

Bee fore a veiling checker's
Hour spelling mite decline,
And if we're lacks oar have a laps,
We wood bee maid too wine.

Butt now bee cause my spelling
Is checked with such grate flare,
Their are know fault's with in my cite,
Of nun eye am a wear.

Now spelling does knot phase me,
It does knot bring a tier.
My pay purrs awl due glad den
With wrapped word's fare as hear.

Too rite with care is quite a feet
Of witch won should bee proud,
And wee mussed dew the best wee can,
Sew flaw's are knot aloud.

Sow ewe can sea why aye dew prays
Such soft wear four pea seas,
And why eye brake in two averse
Buy righting want too pleas.

Jerrold H. Zar

Cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn *The Journal of Irreproducible Results*, Ionawr/Chwefror 1994, tudalen 13. Ailargraffwyd (oherwydd galw mawr) yn *The Journal of Irreproducible Results*, Vol. 45, No. 5/6, 2000, tudalen 20. Gwelwch www.jir.com/pullet.html.

(Gyda diolch i gydweithiwr / myfyriwr o garfan 2014 y Dystysgrif AU i Raddedigion am fy nghyfeirio at y gerdd hon).

**Atodiad 2:**

## Slipiau Melyn

Cynigir addasiad rhesymol i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Tîm Gwahaniaethau Dysgu Penodol (SpLD) trwy ofyn i farcwyr gymryd eu hanawsterau i ystyriaeth wrth raddio eu gwaith.

Mae hyn yn golygu y bydd marcwyr yn marcio gwaith yn ôl y cynnwys a'r syniadau, ac yn peidio â thynnu marciau am sillafu a strwythur **ac eithrio** pan fo sillafu a strwythur yn rhan o'r canllawiau marcio / deilliannau dysgu.

Gall myfyrwyr wneud cais am yr addasiad hwn trwy ddefnyddio slip melyn.

- Dylid defnyddio slipiau melyn **papur** ar gyfer cyflwyniadau **papur**. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau i'r marcwyr, ac maent ar gael o Swyddfa Gyffredinol y Gwasanaethau Anabledd ar lawr gwaelod isaf Rathbone.

- Mae fersiwn **electronig** o'r slip melyn ar gael ar gyfer cyflwyniadau **electronig** a gallwch ei gopïo a phastio i'ch blaenddalen / dogfennau cyflwyno.

**Sut mae cael slip melyn electronig?**

1. Ewch i'ch tudalen Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (CCDP) (https://apps.bangor.ac.uk/plsp/student/).

2. Dde-gliciwch ar y ddelwedd 'Slip Melyn'.

3. Cliciwch ar 'Copïo Delwedd'.

4. Pastiwch y ddelwedd i ddogfen *Word.*

Fel arall, gellir llusgo'r ddelwedd o'r dudalen Cynllun Cefnogi Dysgu Personol yn syth i ddogfen *Word.*

**Cyfeiriadau**


British Dyslexia Association (BDA), (2012), What are Specific Learning Difficulties? http://www.bdadyslexia.org.uk/about-dyslexia/schools-colleges-and-universities/what... Darllenwyd 6 Medi 2012.

Carter, C. and Kirkham, L. (1996), Dyslexia: Guidelines for Tutors and Markers, Leicester University, Study Support Centre for Students with Special Needs

Conway, J. and Turner, J. (2011), ADSHE: Guidance for Good Practice: Marking practices for dyslexic students, ADSHE.

London South Bank University (2014), Good practice guidelines for tutors, https://my.lsbu.ac.uk/...student-life/dds-spld-marking-policy%202012.p darllenwyd 17 Rhagfyr 2013.

QAA COP Section 3, http://www.qaa.ac.uk/academicinfrastructure/codeOfPractice/section3/Section3Disabilities2010.asp yn Conway, J. and Turner, J. (2011), ADSHE: Guidance for Good Practice: Marking practices for dyslexic students, ADSHE, July 2011.

University of Bournemouth (2003), Dyslexia Marking Guidelines, Additional Learning Needs Unit.

University of Liverpool (2014), Guidelines for marking and feedback for students with specific learning difficulties (SpLDs), University of Liverpool Code of Practice on Assessment.

University of Northampton (2008), Guidelines for marking work of students with SpLD at the University of Northampton, Access Ability Team.

University of Teesside (2008), Guidance on marking the work of dyslexic students, Department of Student Services.

Zar, J. H. (1994), Candidate for a Puller Surprise, ar gael o: www.jir.com/pullet.html darllenwyd 6 Mawrth 2014.


Awst 2023